



Tribiwnlys Addysg Cymru

Gorchmynion apêl

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw esbonio'r amserlenni ar gyfer gorchmynion apêl a wneir gan Dribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys). Os hoffech gael unrhyw wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â'r Tribiwnlys.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apeliadau a hawliadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich achos y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adnoddau gwybodaeth

- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)


Ein gorchmynion

Gorchmyn Tribiwnlys yw gorchmyn i gyflawni camau penodol a wneir gan y Tribiwnlys. Mae gorchmynion yn cael eu gwneud ar ôl i baneli glywed achosion a chyhoeddi adroddiad penderfyniad terfynol. Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gorchmyn yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad.

Mae ein gorchmyn yn rhwymo'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach. Mae ganddynt ddyletswydd i wneud yr hyn y mae'r Tribiwnlys yn ei orchmyn.


Amserlenni ar gyfer cydymffurfio

Mae gan yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach hyn a hyn o amser i gyflawni'r cam gweithredu yn y gorchmyn. Mae'r amserlen a ganiateir yn amrywio yn dibynnu ar y math o orchmyn. Dim ond drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys y gall y person sy'n apelio, yr awdurdod lleol, neu'r sefydliad addysg bellach ymestyn yr amserlen.



Sefydliad addysg bellach

Ar gyfer sefydliad addysg bellach, ystyr "diwrnod yn ystod y tymor" yw diwrnod pan ddylai fod yn addysgu'r rhan fwyaf o fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu cyfnodau tymhorau arferol, pan fydd y rhan fwyaf o'r cyrsiau'n cael eu cynnal. Nid yw'n cynnwys gwyliau rhwng tymhorau arferol, pan fydd rhai cyrsiau'n dal i gael eu cynnal o bosibl.



Derbyn i ysgol

Os ydym yn gorchymyn i'r awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir wahanol yn CDU plentyn, rhaid i'r ysgol dderbyn y plentyn. Mae'r ddyletswydd i dderbyn y plentyn yn dechrau cyn gynted ag y bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi'r CDU newydd. Mae hyn yn golygu y gall fod oedi ar ôl i ni wneud y gorchymyn. Nid yw'r math hwn o orchymyn yn dirymu unrhyw waharddiad o'r ysgol a enwir.

Ar ôl i'n gorchymyn gael ei wneud

Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi ein penderfyniad, ni allwn gymryd unrhyw gamau pellach. Nid oes gennym bŵer i oruchwylio sut a phryd y mae'r corff yn cyflawni'r gorchymyn. Hyd yn oed os nad yw'n gwneud yr hyn rydym wedi ei orchymyn o fewn y

terfyn amser, ni allwn gymryd camau pellach. Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys i'w orfodi.

Fel arall, gallwch gwyno i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

additionallearningneedsbranch@gov.wales

Gallwch hefyd wneud cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

www.ombwdsmon.cymru

0300 790 0203

Beth allaf ei wneud os nad ydw i'n hapus am eich penderfyniad?

Os ydych yn credu bod problem dechnegol gyda'r penderfyniad, neu sut y bu i ni wneud y penderfyniad, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Ni fyddwn yn adolygu ein penderfyniad dim ond am nad ydych yn hapus gydag ef. Rhaid i ni dderbyn eich cais ysgrifenedig i'w adolygu o fewn 28 diwrnod ar ôl i ni gyhoeddi'r penderfyniad. Gall y Tribiwnlys wrthod derbyn cais i adolygu, neu ofyn am farn pob parti i wneud penderfyniad pellach.

Os credwch fod y penderfyniad yn anghywir ar bwynt cyfreithiol gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Apeliadau Gweinyddol). I wneud hyn, yn gyntaf rhaid i chi wneud cais i ni am ganiatâd i apelio. Rhaid i ni dderbyn y cais am ganiatâd i apelio dim hwyrach na 28 diwrnod o'r dyddiad ar y llythyr a anfonwyd atoch gyda'r penderfyniad. Os na fyddwn yn rhoi caniatâd, gallwch wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd, ond ni fydd yn ystyried y cais oni bai eich bod yn gwneud cais i Dribiwnlys Addysg Cymru am ganiatâd yn gyntaf. Byddwch angen caniatâd i apelio naill ai gan Dribiwnlys Addysg Cymru neu'r Uwch Dribiwnlys cyn y gallwch gyflwyno'r apêl.